

Dyfodol ein gorffennol: Ffurflen ymateb i'r ymgyngoriad

Bydd eich barn ar y cynigion sy'n cael eu nodi yn y ddogfen ymgynghori hon yn gyfraniad allweddol i ddatblygiad pellach y Bil Treftadaeth. Gan fod yr ymgynghoriad yn delio ag ystod eang o bynciau sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd hanesyddol, efallai y gwelwch nad yw rhai o'r cwestiynau canlynol yn berthnasol i'ch diddordeb neu'ch profiad chi. Felly, mae croeso i chi ateb cynifer neu cyn lleied o'r cwestiynau ag y dymunwch.

Dychwelwch y ffurflen hon at Lywodraeth Cymru cyn 11 Hydref 2013.

Y cyfeiriad e-bost ar gyfer ymatebion neu ymholiadau yw:
cadwheritagebill@cymru.gsi.gov.uk

Dylid anfon ymatebion drwy'r post at:
Tîm y Bil Treftadaeth
Cadw
Llywodraeth Cymru
Plas Carew
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd
CF15 7QQ

Rhif ffôn ar gyfer ymholiadau: 01443 336090/1

Enw: Jill Bullen

Sefydliad (os yn berthnasol): Cyfoeth Naturiol Cymru

Cyfeiriad e-bost: jill.bullen@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Rhif ffôn: 01970 63 1165

Cyfeiriad: Rhodfa Padarn, Aberystwyth, SY23 3RU

2 Nodi arwyddocâd

Nodi a diogelu asedau hanesyddol o arwyddocâd cenedlaethol

Henebion cofrestredig

- C1** Caniatáu i Weinidogion Cymru ddynodi safleoedd sy'n darparu tystiolaeth o weithgarwch dynol o'r gorffennol, gan gynnwys gwasgariadau arteffactau a gweddillion archaeolegol eraill nad ydynt yn cynnwys unrhyw adeiladau na gweithfeydd.

Cw1	Ydych chi'n cytuno â chynnig C1?	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
	Ydwyf		Nac ydwyf
Sylw			
<p>Mae angen i'r meini prawf ar gyfer dynodi safleoedd o'r fath fod yn glir iawn fel na ellir eu camddehongli; sut penderfynir ar faint safle o'r fath? Mae angen nodi'r ffin ar y ddaear yn glir a chyfathrebu'n glir iawn â rheolwyr y tir i atal difrod anfwriadol i'r adnodd archaeolegol.</p> <p>Mae yna gysylltiad hanfodol rhwng gwarchod ein hamgylchedd hanesyddol a'n safleoedd cadwraeth natur gwarchodedig.</p> <p>Mae tystiolaeth o fywyd/gweithgarwch dynol yn cael ei warchod fel SoDdGA hefyd. Mae ogofâu niferus wedi'u dewis o dan y Gyfres Adolygu Cadwraeth Daearegol sydd â nodweddion o ddiddordeb Palaeolithig, Mesolithig a Neolithig. Er enghraifft, yn Ogor Potnewydd y darganfuwyd yr olion dynol hynaf yng Nghymru ac mae'n Heneb Gofrestredig ac yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Mae yna nifer o safleoedd ogofâu pwysig eraill yng Nghymru sy'n Henebion Cofrestredig ac yn SoDdGA. Mae yna orgyffwrdd hefyd â safleoedd pail Cwaternaidd, er enghraifft mae'r cofnod pail yng Nghors Caron yn cofnodi gwaith clirio amaethyddol yn ystod y cyfnod Neolithig.</p> <p>Mae Safleoedd Geoamrywiaeth Pwysig Rhanbarthol (RIGS) yn gorgyffwrdd mewn modd tebyg â Henebion Cofrestredig ac Adeiladau Rhestredig. Er enghraifft, cromlechi fel Din Lligwy a Gwersyll Rhufeinig Caergybi.</p>			

Adeiladau Rhestredig

- C2** Er mwyn caniatáu i gofnodion rhestredig newydd nodi'n derfynol nad yw rhan benodol neu nodwedd o adeilad rhestredig neu adeiledd sydd ynghlwm ag ef neu o fewn ei gwrtil o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, ac felly nad yw wedi ei ddynodi.
- C3** Llacio'r rheolau sy'n gysylltiedig â thystysgrifau imiwnedd rhag rhestru fel bod modd gwneud ceisiadau ar unrhyw adeg.

Dyfodol ein gorffennol: Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Cw2 A fyddai cynnig C2 yn gwella'r system bresennol ar gyfer dynodi adeiladau rhestredig?			
Byddai	<input checked="" type="checkbox"/>	Na fyddai	<input type="checkbox"/>
Sylw			
<p>Bydd gwell eglurder ar rannau/nodweddion adeilad sy'n arwyddocaol neu beidio yn ddefnyddiol i reolwyr er mwyn cynnal adeiladau rhestredig, gan eu galluogi i dargedu adnoddau ac ymdrech lle bo angen. Dylid cael canllawiau clir ar gymhwyso casgliadau yn seiliedig ar y cofnodion rhestredig.</p> <p>Mae CNC yn cefnogi gwaith geogadwraeth Fforwm Cerrig Cymru a ddylai gyfrannu'n allweddol at y gwaith o asesu a rheoli Henebion Cofrestredig ac Adeiladau Rhestredig.</p>			

Cw3 Ydych chi'n cytuno â chynnig 3?			
Ydwyf	<input type="checkbox"/>	Nac ydwyf	<input type="checkbox"/>
Sylw			
Dim sylw			

Dynodiadau – ymgynghori ac adolygu

- C4** Ymgynghori'n ffurfiol â pherchnogion (ble y maent yn hysbys), awdurdodau cynllunio lleol ac eraill sydd â diddordeb penodol mewn adeilad hanesyddol neu heneb ar bob cais am ddynodi y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn bodloni'r meini prawf.
- C5** Ystyried cyflwyno diogelwch dros dro ar gyfer henebion ac adeiladau hanesyddol y mae Gweinidogion Cymru o bosib yn bwriadu eu dynodi.
- C6** Creu strwythur ar gyfer adolygu penderfyniad i ddynodi adeilad hanesyddol neu heneb.

Cw4 Ydych chi'n cytuno â chynigion C4, C5 a C6?			
Ydwyf	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac ydwyf	<input type="checkbox"/>
Sylw			
<p>Mae hyn yn arbennig o berthnasol i reoli tir ar neu o gwmpas dynodiad. Byddai cyfrannu at lunio ardal ddynodedig o faint priodol o amgylch nodwedd yn gwella ei dilysrwydd a'i rheolaeth o ganlyniad. Gall gwybodaeth rheolwyr am nodweddion tebyg neu gysylltiedig yn yr ardal ddarparu manteision ar raddfa tirwedd o ran deall a rheoli'r nodweddion.</p>			

**Dyfodol ein gorffennol: Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad
Trefnadaeth forol**

- C7** Defnyddio pwerau cofrestru yn Neddf Henebion a Mannau Archaeolegol 1979 yn gyffredinol i ddiogelu asedau hanesyddol morol.

Cw5 Ydych chi'n cytuno â chynnig C7?			
Ydwyf	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac ydwyf	<input type="checkbox"/>
Sylw			
Rydym yn cefnogi'r cynnig i ddefnyddio pwerau cofrestru yn Neddf Henebion a Mannau Archaeolegol 1979 yn gyffredinol i ddiogelu asedau hanesyddol morol ar y sail y byddai'n symleiddio'r fframwaith rheoli yn yr amgylchedd morol, ac yn hwyluso mynediad i safleoedd hanesyddol pwysig.			

Ardaloedd hanesyddol - cyffredinol

- C8** Sefydlu un 'Cofrestr o Ardaloedd o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru' fydd yn cynnwys:

Rhan 1: Parciau a Herddi Hanesyddol,

Rhan 2: Tirweddau Hanesyddol,

Rhan 3: Meysydd Brwydro Hanesyddol.

Cw6 Ydych chi'n cytuno y byddai un gofrestr ar-lein o Ardaloedd o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru o fudd?			
Ydwyf	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac ydwyf	<input type="checkbox"/>
Sylw			
Gweler y ddogfen ar wahân (mae'r ymateb yn hirach na'r bocs sylwadau).			

Ardaloedd hanesyddol – parciau a gerddi

- C9** Ystyried yr opsiynau ar gyfer ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gynnal a gwella y gofrestr o barciau a gerddi hanesyddol (rhan 1 y 'Cofrestr o Ardaloedd o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru' arfaethedig wedi'i huno) yn unol â'r meini prawf a gyhoeddwyd.
- C10** Edrych ar ffyrdd o wneud perchnogion dilynol yn ymwybodol o statws parciau a gerddi cofrestredig.
- C11** Ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol ymgynghori â Cadw a chorff amwynder enwebedig ar bob cais cynllunio sy'n cael effaith ar barc a gardd hanesyddol gofrestrredig neu ei lleoliad.



Dyfodol ein gorffennol: Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Cw7 Ydych chi'n cytuno â chynigion C9, C10 a C11?			
Ydwyf		Nac ydwyf	
Sylw			
<p>Mae angen i drefniadau ar gyfer ymgynghori ar geisiadau cynllunio sy'n cael effaith ar barciau a gerddi cofrestredig a'u cyffiniau fod yn gadarnach, yn gliriach a bod â sail statudol.</p> <p>Er bod gofyn i awdurdodau cynllunio lleol ymgynghori â Cadw ar geisiadau cynllunio sy'n effeithio ar safleoedd Gradd I a II* nid yw pob un yn gwneud hynny o bell ffordd. Nid ydynt chwaith yn ymgynghori â chyrff perthnasol eraill fel y Gymdeithas Hanes Gerddi ar geisiadau sy'n effeithio ar bob parc a gardd ar y gofrestr. Ond rydym yn ymwybodol bod yna broblemau o ran adnoddau yn y sector hwn.</p> <p>Byddem yn annog yr awdurdodau i ddatblygu polisïau cryf yn eu cynlluniau datblygu lleol i ddiogelu parciau a gerddi cofrestredig ac i ddatblygu rhestri lleol ar gyfer safleoedd o arwyddocâd mwy lleol.</p>			

Ardaloedd hanesyddol tirweddau

- C12** Cynnal cofrestr y tirweddau hanesyddol (rhan 2 y Cofrestr arfaethedig unedig o 'Ardaloedd o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru') a sefydlu dull o enwebu tirweddau hanesyddol neu o newid neu ddileu ardaloedd presennol.
- C13** Cynnwys tirweddau hanesyddol yn y canllaw ar gyfer rheoli'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru yn gynaliadwy.
- C14** Gweithio ochr yn ochr â chydweithwyr mewn rhannau eraill o Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y dull arfaethedig o reoli adnoddau naturiol yn effeithiol er mwyn rheoli tirweddau hanesyddol yn gynaliadwy.

Cw8 Ydych chi'n cytuno â chynigion C12, C13 a C14?			
Ydwyf	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac ydwyf	<input type="checkbox"/>
Sylw			
Gweler y ddogfen ar wahân (mae'r ymateb yn hirach na'r bocs sylwadau).			

Ardaloedd hanesyddol – meysydd brwydrau

- C15** Creu a chynnal cofrestr o feysydd brwydrau hanesyddol (rhan 3 y Cofrestr unedig arfaethedig o Ardaloedd o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru') a chyhoeddi'r meini prawf ar gyfer asesu y safleoedd sy'n gwneud cais.
- C16** Edrych ar ffyrdd o wneud perchnogion dilynol yn ymwybodol o gofnodion y gofrestr.

Dyfodol ein gorffennol: Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

- C17** Cynhyrchu canllaw cynllunio i ddiogelu a rheoli yn gynaliadwy safleoedd Haen 1 a Haen 2 ar y gofrestr o feysydd brwydrau hanesyddol.

Dyfodol ein gorffennol: Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Cw9 Ydych chi'n cytuno â chynigion C15, C16 a C17?			
Ydwyf	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac ydwyf	<input type="checkbox"/>
Sylw			
<p>Rydym yn cefnogi'r cynnig i greu a chynnal cofrestr o feysydd brwydrau hanesyddol a chyhoeddi'r meini prawf a ddefnyddir i benderfynu pa feysydd brwydrau sy'n ymddangos ar y gofrestr. I leihau dyblygu yma, gweler y sylwadau a nodwyd yng nghwestiwn 6 ar gynnis 8 fel ein prif resymau dros gefnogi hyn.</p>			
<p>Byddem yn cwestiynu a ddylai meysydd brwydrau haen 1 gael yr un amddiffyniad â pharciau a gerddi yn hytrach na thirweddau hanesyddol, y maent yn debyg iddynt. A allai'r gwahaniaeth rhwng haen 1 a haen 2 fod yn fwy cyson o'u cysoni â therminoleg a gwahaniaethau rhwng eithriadol ac arbennig (fel mewn tirweddau cofrestredig).</p>			
<p>Mae angen i'r meini prawf a ddefnyddir i benderfynu a yw maes brwydr yn un haen 1 neu haen 2 (neu derm arall) fod yn gadarn gan fod yna wahaniaeth arfaethedig mewn pwysoliad perthnasol rhwng haen 1 a haen 2 yn y broses gynllunio. Mae eglurder a thryloywder llwyr yn leihau heriau posibl i statws safleoedd haen 1 tra bod amddiffyniad cynllunio yn llai yn haen 2. Yn yr un modd, dylai cywirdeb ac arwyddocâd ffiniau'r meysydd brwydrau fod wedi'u mynegi'n glir ar gyfer dibenion cynllunio. Rydym yn croesawu canllawiau cynllunio, fel y cynnig yn C17, yn fawr.</p>			
<p>Byddem yn awgrymu y dylid ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol ystyried pob maes brwydr haen 2 yn eu cynlluniau datblygu lleol ac wrth benderfynu ar geisiadau pan gallai datblygiadau gael mwy o effaith nag effaith leol yn unig. Fodd bynnag, yr hyn sy'n destun pryder gyda'r lefel hon o ystyriaeth gynllunio yw mai dim ond pan maent yn cael effaith ehangach nag effaith leol yn unig y maent yn cael eu hystyried. Gallai hyn hepgor asesiadau o gynigion sydd ond yn cael effaith leol felly er bod natur yr effaith honno'n sylweddol, neu fod sawl effaith leol gyda'i gilydd yn arwain at effaith sylweddol.</p>			
<p>Dylai canllawiau cynllunio fod yn ofynnol a dylent egluro sut i ddefnyddio'r gofrestr o feysydd brwydrau wrth asesu effaith datblygiadau mawr ar safleoedd meysydd brwydrau. Gellid ystyried defnyddio asesiad o arwyddocâd effaith datblygiad ar dirweddau hanesyddol ar y Gofrestr, sef dull ASIDOHL2, o fewn y canllawiau a gellid archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio hyn yn arbennig os cynhelir yr adolygiad o ASIDOHL a'r Canllaw Arfer Da gyda hyn mewn golwg fel yr awgrymir yn yr ymateb i Gwestiwn 8. Byddai'n fuddiol creu canllawiau sy'n cynghori ar effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol, effeithiau gweledol, golygfa allweddol a llinellau gweld gan gyfeirio at y maes brwydr ei hun, ei leoliad a'r cyd-destun yn y dirwedd.</p>			

Dyfodol ein gorffennol: Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Safleoedd Treftadaeth y Byd

C18 Edrych ar ffyrdd o sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn rhoi ystyriaeth briodol i Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru.

C19 Cyhoeddi canllawiau fydd o gymorth i awdurdodau cynllunio lleol ystyried rhinweddau Safleoedd Treftadaeth y Byd.

Cw10A oes gennych enghreifftiau o achosion ble nad oes, yn eich barn chi, ystyriaeth iawn wedi'i roi i werth cyffredinol eithriadol Safle Treftadaeth y Byd?			
---	--	--	--

Oes		Nac oes	
-----	--	---------	--

Rhowch fanylion.

Cw11 A oes gan awdurdodau cynllunio lleol swyddogaethau a allai gael effaith ar werth cyffredinol eithriadol Safleoedd Treftadaeth y Byd?			
--	--	--	--

Oes	<input type="checkbox"/>	Nac oes	<input type="checkbox"/>
-----	--------------------------	---------	--------------------------

Rhowch fanylion.

Dim sylw

Dyfodol ein gorffennol: Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Cw12 A fyddai'n bosib i awdurdodau cynllunio lleol newid y ffordd y maent yn cyflawni eu swyddogaethau i gyfrannu'n bositif at gadw gwerth cyffredinol eithriadol Safleoedd Treftadaeth y Byd?

Byddai

Na fyddai

Rhowch fanylion.

Dylai Safleoedd Treftadaeth y Byd gael eu cynnwys mewn cynlluniau datblygu lleol gyda pholisïau cadarn i'w cefnogi wrth benderfynu ar geisiadau lle gallai datblygiadau gael effaith ehangach nag effaith leol yn unig a lle gallai cynigion fod ag effaith leol yn unig ond bod natur yr effaith honno'n arwyddocaol iawn.

Gellid defnyddio'r gwaith o baratoi canllawiau cynllunio penodol ar leoliad a golygfeydd arwyddocaol yn gadarnhaol a rhagweithiol yng nghanam cyn gwneud cais y broses gynllunio, gan gynorthwyo datblygwyr a llunwyr penderfyniadau. Gellid llunio'r canllawiau fel canllawiau cenedlaethol neu fel Canllawiau Cynllunio Atodol gan yr awdurdod cynllunio lleol fel rhan o Ganllawiau Cynllunio Atodol amgylchedd hanesyddol ehangach. Mae gan English Heritage ganllawiau ar *The setting of heritage assets* a *Seeing the history in the view*, ac mae'r canllawiau hyn yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd sy'n gyfle posibl i gyflwyno canllawiau ar y cyd.

Mae Safleoedd Treftadaeth y Byd, fel tirweddau hanesyddol, yn cwmpasu tirweddau byw, sy'n newid ac addasu. Dylai gwarchod gwerth cyffredinol eithriadol fod yn brif swyddogaeth awdurdodau cynllunio lleol gyda dyletswydd i warchod y gwerth hwn gan arwain yn gadarnhaol a chaniatáu newid derbynol yr un pryd. Gall dull partneriaeth o gydweithio a chydlynu gweithgarwch o fewn cynllun rheoli a fframwaith polisi cynllunio arwain gwaith cynllunio a rheoli a monitro i sicrhau bod y gwerth cyffredinol eithriadol yn cael ei gynnal.

Cw13 Pa benderfyniadau sydd wedi'u gwneud gan gyrff cyhoeddus ar wahân i awdurdodau cynllunio lleol allai gael effaith ar werth cyffredinol eithriadol Safleoedd Treftadaeth y Byd?

Nid oes gan bob corff cyhoeddus gylch gwaith sy'n cynnwys yr amgylchedd treftadaeth. Gall fod yn rhan o gylch gwaith rhai cyrff, ond nid i eraill. Felly, mae'n bosibilrwydd cryf y bydd penderfyniadau'n cael eu cymryd a fydd yn gwrthdaro â gwerth cyffredinol eithriadol Safle Treftadaeth y Byd. Er enghraifft, gall gwrthdaro ddigwydd gyda buddiannau statudol eraill a warchodir, er enghraifft gyda safleoedd a rhywogaethau a warchodir yn statudol.

Dyfodol ein gorffennol: Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Cw14 Faint o bwysigrwydd a ddylid ei roi i statws Safle Treftadaeth y Byd mewn penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan gyrff cyhoeddus?

Mae UNESCO wedi nodi Safleoedd Treftadaeth y Byd fel llefydd eithriadol sydd â 'gwerth cyffredinol eithriadol' o arwyddocâd rhyngwladol. Heb yr amddiffyniad statudol a roddir i lawer o asedau treftadaeth cenedlaethol pwysig, ychydig o amddiffyniad, cydnabyddiaeth a sylw dyledus a roddir i'r safleoedd rhyngwladol pwysig hyn. Dylai'r gwaith o baratoi datganiadau gwerth cyffredinol lywio a bod yn sail i amddiffyniad cynllunio ag iddo statws addas ar gyfer y safleoedd hyn a gydnabyddir yn rhyngwladol.

Heb amddiffyniad statudol cynhwysfawr, mae cydnabod Safleoedd Treftadaeth y Byd yn y broses gynllunio yn gofyn am ddealltwriaeth hollol glir o'r gwahanol raddau o amddiffyniad a roddir i bob elfen yn cynnwys y glustogfa, lleoliadau hanfodol a golygfeydd arwyddocaol. Mae angen deall hefyd sut mae Safleoedd Treftadaeth y Byd yn gweithio ac yn gweithredu yn eu cyfanrwydd a'u perthynas â'r elfennau cyfansoddol hyn. Gyda safleoedd o werth cyffredinol o'r fath dylid rhoi ystyriaeth lawn i sut mae'r elfennau hyn yn rhyngweithio ac yn cysylltu â'i gilydd, gan eu rheoli i leihau effeithiau niweidiol.

Dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried Safleoedd Treftadaeth y Byd yn eu cynlluniau datblygu lleol ac wrth benderfynu ar geisiadau lle gallai datblygiadau gael effaith ehangach nag effaith leol yn unig a lle gallai cynigion fod ag effaith leol yn unig ond bod natur yr effaith honno'n arwyddocaol iawn. Dylent fod ar yr un lefel â Pharciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol ac ar lefel uwch na Thirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig.

Bydd Dull Rheoli ar Lefel yr Ecosystem/Cynllunio Adnoddau Naturiol yn gyfle i sicrhau cydbwysedd rhwng buddiannau ac ystyriaethau amrywiol. Un ohonynt fydd gwerth hanesyddol a thirweddol a pha mor ddiddorol yw'r Safle Treftadaeth y Byd ochr yn ochr â swyddogaethau a gwasanaethau eraill a ddarperir yn y lleoliad. Mae lefel pwysigrwydd safle unigol yn dibynnu ar y sefyllfa unigol, ond dylai arwyddocâd rhyngwladol y safleoedd hyn sicrhau ystyriaeth briodol iddynt mewn polisïau cynllunio ysgrifenedig.

Dyfodol ein gorffennol: Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Cw15 A fyddai rhoi ystyriaeth briodol i'w gwerth cyffredinol eithriadol yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar ddatblygiad o fewn Safleoedd Treftadaeth y Byd neu eu lleoliadau?

Byddai

Na fyddai

Rhowch fanylion.

Nid yw rhoi ystyriaeth briodol i werth cyffredinol eithriadol yn golygu o reidrwydd na ellir gwneud newidiadau a datblygiadau ar y safleoedd hyn. Dylai sefydlu datganiadau o werth cyffredinol fod yn gam cadarnhaol sy'n helpu a hwyluso newid priodol sy'n gydnaws â chyd-destun y safle gan ganiatáu'r datblygiad iawn yn y lle iawn. Fodd bynnag, os cynigir newidiadau sy'n gwbl anghydnaws â'r diddordeb treftadaeth, graddfa a/neu gynllun a'r datganiad o werth cyffredinol, yna dylid defnyddio hyn yn y broses gynllunio i wrthwynebu a lliniaru yn y lle cyntaf neu ei wrthod os nad oes datrysiad derbyniol yn bosibl.

O safbwynt coetiroedd, mae'r penderfyniadau y gallai Cyfoeth Naturiol Cymru eu cymryd a allai effeithio ar Safleoedd Treftadaeth y Byd yn cynnwys caniatáu cynlluniau creu coetiroedd newydd, trwyddedau cwmpo a dylunio coedwigoedd. Gallai'r math o gynllun creu coetir a gymeradwyir gael effaith gadarnhaol neu negyddol yn dibynnu ar y rhywogaethau a ddewisir a'i lleoliad mewn perthynas â nodweddion y Safle. Byddai trwyddedau cwmpo yn newid y dirwedd dros dro ond mae ailstocio coetir yn amod o drwydded gwmpo fel rheol, byddai peidio ag ailstocio yn arwain at newid y defnydd o'r tir. Dylid ystyried gwerth cyffredinol eithriadol wrth wneud y penderfyniadau hyn. Gall Dylunio Coedwigoedd (cynllunio Adnoddau Coedwigoedd fel y'i gelwir erbyn hyn) ategu golwg y coetir fel rhan o'r dirwedd, felly os yw'r dylunwyr yn deall y gwerthoedd treftadaeth gallant ystyried hyn wrth ddylunio'r goedwig i sicrhau canlyniad cadarnhaol.

Nodi a dynodi asedau hanesyddol o arwyddocâd lleol

Ardaloedd cadwraeth

C20 Hyrwyddo, drwy ganllawiau cynllunio, y defnydd o bennu nodweddion fel arf hanfodol ar gyfer llunio cynigion i gadw a gwella ardaloedd cadwraeth, ac fel y dull mwyaf effeithiol o'u hadnabod a'u hadolygu'n rheolaidd.

C21 Uno caniatâd ardal gadwraeth gyda chaniatâd cynllunio.

Dyfodol ein gorffennol: Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Cw16 Ydych chi'n cytuno â chynigion C20 a C21?			
Ydwyf	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac ydwyf	<input type="checkbox"/>
Rhowch fanylion.			
<p>Mae Asesiad Cymeriad Hanesyddol yn adnodd defnyddiol ar gyfer llunio cynlluniau newydd (Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd yn bennaf) mewn Ardaloedd Cadwraeth.</p> <p>Byddai uno caniatâd ardal gadwraeth gyda chaniatâd cynllunio yn creu proses symlach. Credwn y gall fod yn bosibl y bydd yna sefyllfaoedd lle mae gwaith yn cael ei gwmpasu gan ddatblygiad a ganiateir i ni o ran Cynllunio ond sydd angen Caniatâd Ardal Gadwraeth o hyd.</p>			

Asedau hanesyddol o arwyddocâd lleol

- C22** Edrych ar ffyrdd o annog a chynorthwyo Awdurdodau Cynllunio Lleol i nodi asedau hanesyddol o arwyddocâd lleol. Gellir gwneud hyn drwy gydweithio rhanbarthol.
- C23** Ffurio a chyhoeddi canllawiau a fyddai'n cynorthwyo awdurdodau cynllunio lleol i baratoi rhestrau lleol o asedau hanesyddol drwy nodi meini prawf priodol ar gyfer asesu arwyddocâd a sefydlu dull o enwebu, ymgynghori, dilysu ac apelio.
- C24** Datblygu, mewn partneriaeth ag awdurdodau cynllunio lleol, bolisiâu enghreifftiol ar gyfer cynlluniau datblygu lleol a chanllawiau cynllunio atodol ar gyfer diogelu a rheoli asedau hanesyddol o arwyddocâd lleol.
- C25** Paratoi canllaw i gynorthwyo gyda'r defnydd o astudiaethau pennu nodweddion i reoli asedau hanesyddol yn gynaliadwy ar lefel lleol.

Dyfodol ein gorffennol: Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Cw17 Ydych chi'n credu y byddai cydweithio rhanbarthol yn effeithiol wrth nodi a diogelu asedau hanesyddol o arwyddocâd lleol?

Ydwyf



Nac ydwyf



Sylw

Byddai cydweithio rhanbarthol yn effeithiol wrth nodi asedau hanesyddol o arwyddocâd lleol fel ffynhonnell gyson o wybodaeth a chyngor. Mae grym cyfunol llawer o gyrff a sefydliadau a allai fod yn cyfrannu at ddatblygu rhestr leol yn hwyluso rhywfaint o gyfranogiad a phartneriaeth, ymrwymiad i'r broses, mwy o hygyrdd, mwy o ymwybyddiaeth a defnydd da o adnoddau ac arbenigedd.

Fodd bynnag, mae'r nodi a'r diogelu terfynol yn debygol o fod fwyaf effeithiol ar lefel awdurdodau cynllunio lleol gan fod ganddynt y gallu i gynnwys polisiâu yn eu Cynllun Datblygu Lleol ac i lunio Canllawiau Cynllunio Atodol fel dull o gynnig amddiffyniad ychwanegol. Mae llunio rhestr ranbarthol yn fwy effeithiol os yw'n cael ei mabwysiadu gan yr awdurdod sy'n rhoi'r caniatâd a'i defnyddio fel rhan o'r broses o reoli datblygu a'r fframwaith cynllunio.

Cw18 Sut allai sefydliadau'r trydydd sector gynorthwyo awdurdodau lleol i adnabod asedau hanesyddol o arwyddocâd lleol?

Dim sylw

Dyfodol ein gorffennol: Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Cw19 Beth hoffech ei weld mewn unrhyw ganllaw a gyhoeddir ar gyfer cynorthwyo'r broses o ddiogelu asedau o arwyddocâd lleol?

Dylai canllaw a gyhoeddir i ddiogelu asedau hanesyddol o arwyddocâd lleol gael ei gysylltu â Chynlluniau Datblygu Lleol i nodi ardaloedd lle mae polisiâu hanesyddol arbennig yn berthnasol. Dylai'r canllaw gynyddu dealltwriaeth a'r gydnabyddiaeth a roddir i asedau hanesyddol o arwyddocâd lleol, egluro sut y penderfynwyd ar asedau o arwyddocâd lleol, y meini prawf a ddefnyddiwyd neu'r ffynhonnell wybodaeth os dibynnir ar setiau data cyfredol (er enghraifft, ardaloedd agwedd tirwedd hanesyddol eithriadol LANDMAP).

Dylai'r canllaw egluro'n glir sut gellid defnyddio rhestrï lleol fel mesur rheoli datblygu ychwanegol yn arbennig ar gyfer diogelu asedau hanesyddol pan ddefnyddir amcanion y polisi fel y prif reswm dros wrthod datblygiadau amhriodol.

Dylai'r canllaw egluro'r holl asedau hanesyddol amrywiol y gellir eu cynnwys, yn cynnwys tirweddau hanesyddol heb eu cofrestru, treftadaeth goedyddol, coetiroedd hynafol a hen goed yn y dirwedd ac ar strydoedd. Dylai'r canllaw egluro sut gellir diogelu asedau hanesyddol drwy ddylanwadu ar ddulliau rheoli a chynllunio asedau hanesyddol cadarnhaol. Er enghraifft, llunio canllaw ar gyfer datblygiadau i sicrhau eu bod yn cyd-fynd neu'n gwella diddordeb, cymeriad neu werth hanesyddol neu dargedu grantiau er mwyn diogelu asedau hanesyddol.

Cw20 Sut y gall astudiaethau pennu nodweddion gynorthwyo yn y broses o adnabod asedau hanesyddol ac ardaloedd o arwyddocâd lleol a'u rheoli'n gynaliadwy?

Mae yna le i gynnal asesiadau o nodweddion sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn adnabod ardaloedd o arwyddocâd lleol, er enghraifft Pennu Nodweddion Tirweddau Hanesyddol, Pennu Nodweddion Hanesyddol Ardaloedd Trefol a haenau Tirwedd Hanesyddol LANDMAP. Mae yna le i gynnwys Asesiadau o Nodweddion y Dirwedd hefyd gan eu bod yn ystyried yr amgylchedd hanesyddol hefyd.

Mae astudiaethau pennu nodweddion yn cynnig sail dystiolaeth gyson a chyfredol o gymeriad tirwedd a nodweddion hanesyddol ac ymdeimlad diwylliannol o le a dull methodolegol o nodi ardaloedd newydd. Wrth fabwysiadu'r dull pennu nodweddion a chyd-destun ehangach hwn mae'n bodloni'r dull tirwedd gyfan a hyrwyddir gan y Confensiwn Tirweddau Ewropeaidd a'r cysyniad bod pob tirwedd yn bwysig, y mae'r DU wedi ymrwymo iddo.

Er bod yna le i bennu nodweddion, ni ddylai nodweddion fod yn rhag-amod ar gyfer nodi asedau hanesyddol o arwyddocâd lleol, efallai nad pennu nodweddion yw'r dull mwyaf priodol o asesu rhai asedau a dylid ei ystyried fel dull adnabod sydd yr un mor ddilys a chadarn.

3 Cynnal arwyddocâd: Rheoli newid yn yr amgylchedd hanesyddol

Cytundebau partneriaethau treftadaeth

- C26** Galluogi sefydlu cytundebau partneriaethau treftadaeth (HPAs) rhwng awdurdodau cydsynio a pherchnogion am raglen waith sy'n cael ei chaniatáu o fewn cyfnod penodol.

Cw21 Ydych chi'n cytuno y byddai HPAs yn ddefnyddiol yng Nghymru?			
Ydwyf		Nac ydwyf	
<p>Sylw</p> <p>Byddai hyn yn gwella'r broses ar gyfer rheoli ardaloedd o dir sydd â nodweddion treftadaeth dynodedig lluosog, gan y byddai'n ei gwneud yn bosibl i ystyried effaith gyfunol newidiadau gyda'i gilydd. Mae gan gynllun rheoli coetir, er enghraifft, gyfres o gamau gweithredu dros gyfnod o flynyddoedd gydag ymyriadau a ailadroddir. Byddai Cytundeb Partneriaeth Dreftadaeth yn dileu'r angen i ofyn am Ganiatâd Heneb Gofrestredig neu Ganiatâd Adeilad Rhestredig sawl gwaith. Y fantais i'r nodweddion amgylchedd hanesyddol yw perthynas gryfach rhwng rheolwyr tir a'r awdurdod caniatáu.</p> <p>Bydd y dull partneriaeth hwn yn ei gwneud yn bosibl i asesu amcanion a gofynion cynnal a chadw amrywiol, dull gwasanaethau tirwedd/ecosystem gyfan. Bydd angen canllawiau i sicrhau cysondeb.</p>			

Gwelliannau i'r broses caniatâd adeilad rhestredig

- C27** Rhoi mwy o eglurder drwy ganllawiau o ran pa waith y mae'n ofynnol cael caniatâd adeilad rhestredig ar eu cyfer, a pha waith lle nad oes galw am hyn ym marn Llywodraeth Cymru.
- C28** Darparu canllawiau ar reoli adeiladau rhestredig yn gynaliadwy yn seiliedig ar yr Egwyddorion Cadwraeth.
- C29** Hyrwyddo defnydd mwy eang o drafodaethau cyn ymgeisio fel rhan o'r broses o gael caniatâd adeilad rhestredig.

Cw22 Ydych chi'n cytuno â chynnig C27, C28 a C29?			
Ydwyf	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac ydwyf	<input type="checkbox"/>
<p>Sylw</p> <p>Mae'r cynigion hyn yn ymddangos yn synhwyrol i helpu perchnogion ddeall pryd i ymgeisio am Ganiatâd Adeilad Rhestredig a lleihau'r baich diangen ar berchnogion/datblygwyr ac adnoddau awdurdodau lleol.</p>			

Dyfodol ein gorffennol: Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

- C30** Galluogi mwy o awdurdodau cynllunio lleol i benderfynu ar geisiadau caniatâd adeilad rhestredig sy'n cael effaith ar adeiladau rhestredig gradd II heb gyfeirio'r mater at Weinidogion Cymru wedi rhoi cyfnod penodol iddynt ddatblygu arbenigedd proffesiynol ar lefel swyddog a pholisïau a gweithdrefnau atodol.
- C31** Edrych ar y posibilrwydd o gyflwyno system a fyddai'n rhoi sicrwydd ffurfiol i ymgeiswyr nad oes angen caniatâd adeilad rhestredig ar gyfer gwaith arfaethedig ar adeilad rhestredig.
- C32** Ystyried symleiddio'r weithdrefn o gymeradwyo caniatâd adeilad rhestredig ar gyfer gwaith nad yw'n cael effaith niweidiol ar adeilad rhestredig, ei leoliad neu unrhyw nodweddion o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig sydd ganddo.

- Cw23** Gofynnir i ymgynghoreion drafod rhagoriaethau cynigion C30, C31 a C32, gan ystyried yn benodol:
- a fyddent yn diogelu adeiladau hanesyddol yn ddigonol,
 - i ba raddau y byddent yn lleihau nifer y ceisiadau am ganiatâd adeilad rhestredig,
 - i ba raddau y byddent yn cyflymu y broses o benderfynu ar geisiadau caniatâd adeilad rhestredig, ac
 - unrhyw risgiau y gallent eu cyflwyno.

Cynnig 30 – Bydd mwy o arbenigedd proffesiynol mewn awdurdodau cynllunio lleol yn rhoi mwy o hyder yn y broses a bydd dileu camau ychwanegol yn gwella'r amserlen felly mae hyn i'w groesawu.

Cynnig 31 - Mae hwn yn ddull defnyddiol o roi sicrwydd i berchnogion nad oes angen caniatâd ar eu cynnig ac felly bydd yn lleihau'r nifer o geisiadau 'rhag ofn' diangen.

Cynnig 32 – Mae symleiddio'r weithdrefn yn ymddangos yn synhwyrol o ystyried y pwysau ar awdurdodau cynllunio lleol. Yn y model a awgrymir, rydym yn tybio mai'r datblygwr fydd yn gorfod talu costau penodi arbenigwr annibynnol ar Adeiladau Rhestredig a bydd angen iddynt bwysu a mesur manteision o ran amser yn erbyn y costau ychwanegol. A fyddai trafodaeth cyn ymgeisio yn amlygu hyn fel opsiwn i'r ymgeisydd?

Cw24 Pa fathau o waith fyddai ddim yn cael effaith niweidiol ar gymeriad adeilad rhestredig ac a allai ddefnyddio system symlach ar gyfer caniatâd adeilad rhestredig?

Dim sylw

Cw25 A oes unrhyw fesurau eraill a allai helpu i oresgyn gwendidau presennol yn y system?

Dim sylw

Dyfodol ein gorffennol: Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Mannau addoli rhestredig ac esemptiad eglwysig

C33 Diweddarau'r Gorchymyn Esemptiad Eglwysig (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1994 a'r canllawiau a'r gwaith sydd, ym marn Llywodraeth Cymru, wedi'i gynnwys yn yr esemptiad.

Cw26 Ydych chi'n cytuno â chynnig 33?			
Ydwyf	<input type="checkbox"/>	Nac ydwyf	<input type="checkbox"/>
Sylw			
Dim sylw			

Gwaith heb awdurdod ar adeiladau rhestredig

C34 Ystyried cyflwyno pŵer i awdurdodau cynllunio lleol a Gweinidogion Cymru gyhoeddi rhybudd hysbysiad stop dros dro am waith heb awdurdod ar adeilad rhestredig.

C35 Edrych ar ffyrdd o sicrhau y bydd y dirwyon sy'n cael eu gosod gan lysoedd ynadon yn effeithiol o ran atal unrhyw waith heb awdurdod rhag digwydd.

Cw27 A oes mantais i gyflwyno hysbysiadau stop dros dro yng Nghymru?			
Oes	<input type="checkbox"/>	Nac oes	<input type="checkbox"/>
Sylw			
Byddai hyn yn darparu amddiffyniad o dan yr amgylchiadau a ddisgrifiwyd ond mae yna berygl o hawliad am iawndal yn achos oedi i waith os nad yw'r hysbysiad stop yn arwain at gamau gorfodi.			

Cw28 Allwch chi roi enghreifftiau o adegau pan fyddai hysbysiad o'r fath wedi bod yn ddefnyddiol?			
Gallaf	<input type="checkbox"/>	Na allaf	<input checked="" type="checkbox"/>
Rhowch fanylion.			

Dyfodol ein gorffennol: Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Cw29 Allwch chi roi enghreifftiau o ddirwyon a osodwyd gan ynadon ar gyfer gwaith heb awdurdod i adeiladau rhestredig a oedd, yn eich barn chi, yn anaddas?			
Gallaf	<input type="checkbox"/>	Na allaf	<input checked="" type="checkbox"/>
Rhowch fanylion.			

Cw30 A fyddai dirwyon uwch yn ddull effeithiol o atal unrhyw waith heb awdurdod i adeiladau rhestredig?			
Byddai	<input type="checkbox"/>	Na fyddai	<input type="checkbox"/>
Sylw			
Dim sylw			

Adeiladau hanesyddol mewn perygl

- C36** Hyrwyddo cydweithio ar draws Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus eraill i ddod o hyd i atebion dychmygus ar gyfer adeiladau rhestredig bregus sydd mewn perygl mewn prosiectau adfywio ac adnewyddu tai yn y dyfodol.
- C37** Cwblhau ac adolygu'n rheolaidd arolwg Cymru-gyfan o gyflwr adeiladau rhestredig.
- C38** Datblygu dull o gydweithio rhwng gwasanaethau cadwraeth yr amgylchedd hanesyddol awdurdodau cynllunio lleol i hyrwyddo arfer gorau a chefnogi camau gweithredu effeithiol.
- C39** Targedu yr asedau hanesyddol sydd yn y perygl mwyaf wrth ddefnyddio unrhyw gyllid sydd ar gael.
- C40** Ehangu'r defnydd o hysbysiadau gwaith brys i adeiladau sydd wedi'u meddiannu, os nad ydynt ar gyfer defnydd preswyl.

Cw31 Beth yw'r ffordd orau o weithredu cynigion C36, C37 a C38?
Mae angen i'r arolwg o gyflwr gynnwys dadansoddiad o'r defnydd / manteision posibl sy'n debygol o helpu i lywio'r broses o bennu blaenoriaethau ar gyfer targedu cyllid.

Dyfodol ein gorffennol: Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Cw32 Ydych chi'n cytuno â chynnig 39?			
Ydwyf	<input type="checkbox"/>	Nac ydwyf	<input checked="" type="checkbox"/>
Sylw			
Mae angen sicrhau cydbwysedd rhwng yr adnoddau gofynnol a'r manteision a ddaw i genedlaethau'r dyfodol/manteision cymdeithasol yn hytrach na thargedu'r rhai sydd yn y perygl mwyaf yn unig. Mae rhai Adeiladau Rhestredig mewn perygl gan eu bod mewn cyflwr gwael iawn, efallai y bydd angen llawer iawn o adnoddau i'w diogelu ac efallai mai ychydig o ddefnydd posibl sydd iddynt. Gall cynllunio strategol ddangos y byddai'n well defnyddio'r adnodd hwnnw i ddiogelu un neu fwy o Adeiladau Rhestredig eraill nad ydynt mewn cymaint o berygl ac a fyddai'n cynnig mwy o fanteision.			

Cw33 A fyddai'n ddefnyddiol i ehangu cwmpas yr hysbysiadau gwaith brys i gynnwys adeiladau wedi'u meddiannu, ar yr amod nad ydynt mewn defnydd preswyl?			
Byddai	<input checked="" type="checkbox"/>	Na fyddai	<input type="checkbox"/>
Sylw			

Henebion cofrestredig

- C41** Edrych ar yr opsiynau ar gyfer cyflwyno mesurau tebyg i hysbysiadau gorfodi adeilad rhestredig ac (os oes angen) yr hysbysiadau stop dros dro arfaethedig i ganiatáu i gamau gael eu cymryd yn erbyn gwaith heb awdurdod i henebion cofrestredig neu i achosion o dorri amodau caniatâd heneb gofrestrredig.
- C42** Ystyried ehangu pwerau mynediad presennol Gweinidogion Cymru fel y gallant ganiatáu i bersonau enwebedig gloddio yn archaeolegol a chofnodi heneb sydd wedi'i difrodi gan waith heb awdurdod, neu sydd mewn perygl o gael ei difrodi yn fuan, heb gydsyniad y perchennog.
- C43** Caniatáu i Weinidogion Cymru wrthod penderfynu ar gais am ganiatâd heneb gofrestrredig ble y cafwyd cais tebyg yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, neu ar dir, neu gan ymgeisydd sydd ag amodau sydd heb eu cyflawni o ganiatâd heneb gofrestrredig cynharach.
- C44** Galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno caniatâd heneb gofrestrredig am waith sydd eisoes wedi'i wneud.
- C45** Dileu yr hawl awtomatig i ymgeiswyr gael eu clywed gan berson penodedig cyn i benderfyniad gael ei wneud ar gais am ganiatâd heneb gofrestrredig a chaniatáu i Weinidogion Cymru ddefnyddio'r dull mwyaf addas o benderfynu ar gais.

Dyfodol ein gorffennol: Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

- C46** Sicrhau y gall Gweinidogion Cymru roi caniatâd heneb gofrestredig a chytuno ar amrywiadau i'r caniatâd hwnnw drwy ffyrdd eraill ar wahân i fod yn ysgrifenedig.

Cw34 Ydych chi'n cytuno â chynigion C41, C42, C43, C44, C45 a C46?			
Ydwyf		Nac ydwyf	
Sylw			
Cynnig 41 – Ydyn, byddai hysbysiadau stop dros dro a hysbysiadau gorfodi yn hytrach na bygwth erlyn yn fwy effeithiol i atal difrod ac i warchod y nodweddion hanesyddol.			
Cynnig 42 – Yn amodol – os caniateir pwerau mynediad yn y ffordd a ddisgrifir yn yr esboniad, h.y. mewn amgylchiadau prin.			
Cynnig 43 - Na - byddai Cytundebau Partneriaethau Treftadaeth yn gweithio'n dda yn y sefyllfaoedd hyn, byddai ceisiadau Caniatâd Heneb Gofrestredig cyfyngedig yn cyfyngu ar waith ymatebol pe bai'n rhaid ailadrodd y gwaith gwreiddiol am ryw reswm (e.e. gweithredu gan drydydd parti).			
Cynnig 44 – Na – Ai rhoi Caniatâd Heneb Gofrestredig ôl-weithredol yw'r unig opsiwn yma? Mae'n agored i gael ei gamddefnyddio os yw pobl yn meddwl y gallant gael y caniatâd ar ôl y digwyddiad. A fyddai rhan o'r hysbysiad gorfodi'n cynnwys peidio ag adfer y camau gweithredu blaenorol ond cyflawni gwaith buddiol a fydd yn diogelu'r budd sy'n weddill?			

4 Adolygu'r fframwaith ar gyfer trefnu gwasanaethau'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru

Cryfhau partneriaethau strategol

- C47** Datblygu ac ymgynghori ar gynlluniau strategol ar gyfer y sector amgylchedd hanesyddol bob pedair blynedd, gan gwmpasu pob un o'r prif swyddogaethau ym mharagraff 4.1: gwybodaeth, cadwraeth a chyswllt â'r cyhoedd.
- C48** Creu mecanwaith ar gyfer darparu cyngor arbenigol annibynnol i lywio polisi Llywodraeth Cymru ar yr amgylchedd hanesyddol a chamau gweithredol y rhai hynny sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus yr amgylchedd hanesyddol ar lefel genedlaethol yng Nghymru.
- C49** Dod â swyddogaethau CBHC a Cadw at ei gilydd yn un gwasanaeth integredig ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol naill ai o fewn neu y tu allan i Lywodraeth Cymru.
- C50** Ystyried a ddylid rhoi gofyniad ar Weinidogion Cymru neu ar unrhyw gorff newydd y tu allan i lywodraeth sy'n darparu'r gwasanaeth wedi'i uno i guradu, cynnal a gwella CHCC.

Dyfodol ein gorffennol: Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

- C51** Ystyried a ddylid rhoi gofyniad ar Weinidogion Cymru neu ar unrhyw gorff newydd y tu allan i Lywodraeth sy'n darparu'r gwasanaeth wedi'i uno i arolygu, ymchwilio a dehongli yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru.
- C52** Ystyried a ddylai Llywodraeth Cymru gynnal cofnod digidol sy'n seiliedig ar fapiau ar-lein, sydd ar gael i'r cyhoedd ei ddefnyddio, ac a fyddai'n nodi ac yn disgrifio pob ased hanesyddol sydd wedi ei gofrestru a'i ddynodi ar lefel genedlaethol.
- C53** Ystyried a ddylai canllawiau cynllunio gydnabod yn ffurfiol y safonau cenedlaethol ar gyfer Cymru mewn perthynas â chasglu ac adneuo archifau archaeolegol wrth gyflawni gwaith archaeolegol sy'n gysylltiedig â'r broses gynllunio.

Cw35 Ydych chi'n cytuno â chynnig C47 i ddatblygu cynlluniau strategol rheolaidd ar gyfer sector yr amgylchedd hanesyddol?			
Ydwyf	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac ydwyf	<input type="checkbox"/>
Sylw			
Ydyn, dylid datblygu cynlluniau strategol rheolaidd ar gyfer y sector hanesyddol, ond gyda phwyslais ar gynllun esblygol sy'n rhoi cyfle i gyfeiriad cyfredol a chynlluniau gweithredu ennill momentwm, cael eu gweithredu a'u hadolygu gan ymateb i sbardunau, pwysau, adnoddau a dyheadau newidiol yr un pryd.			

Cw36 Ydych chi'n teimlo bod pedair blynedd yn gyfnod cywir ar gyfer datblygu cynlluniau o'r fath?			
Ydwyf		Nac ydwyf	
Beth yw'r ffordd orau yn eich tyb chi o'u datblygu a'u cyflawni?			
Fel yng nghwestiwn 35, mae pedair i bum mlynedd yn addas fel cynllun esblygol lle gellir llywio cwrs i gyfeiriad sy'n dal i fod yn ddilys ac addas heb bwysau diangen i ddechrau o'r newydd. Yn yr un modd, o fewn yr amserlen hon mae modd cadw cynllun yn ddeinamig ac yn gyfredol pe bai amgylchiadau'n newid yn sylweddol lle mae'r amgylchedd hanesyddol yn gofyn am newid cyfeiriad mwy radical er mwyn ymateb i anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.			
Mae corff arweiniol yn hanfodol er mwyn sbarduno a chyflawni cynllun strategol, ond mewn partneriaeth, gydag arweinwyr addas yn ymrwymo i sicrhau a chynorthwyo gweithrediad llwyddiannus y cynllun drwy gydweithio'n well, mewn partneriaethau ac adeiladu ar sgiliau a gallu a chroesi meysydd i sicrhau canlyniadau tebyg.			

Dyfodol ein gorffennol: Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Cw37 Ydych chi'n cytuno y dylid creu panel cynghorol newydd ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol?			
Ydwyf	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac ydwyf	<input type="checkbox"/>
Os felly, beth fyddai prif swyddogaethau'r panel hwnnw?			
<p>Darparu arbenigedd proffesiynol, academiaidd a thechnegol o'r sector amgylchedd hanesyddol ac o'r tu allan i'r sector gan fanteisio ar brofiad o feysydd dylanwadol.</p> <p>Arbenigwyr o'r sector a'r tu allan i godi ymwybyddiaeth o feysydd posibl sy'n destun pryder, rôl sganio'r gorwel a thynnu sylw at achosion posibl o wrthdaro buddiannau</p> <p>Cyflwyno safbwyntiau newydd heb eu cyfyngu gan gylchoedd gwaith sefydliadol, yr angen i fod yn ddiuedd neu gyfyngiadau gwleidyddol</p> <p>Cyflwyno mwy na safbwynt cenedlaethol – safbwynt amgylchedd hanesyddol Ewropeaidd a rhyngwladol hefyd</p> <p>Sicrhau cydbwysedd a realiti i gyfeiriad ymdrech, adnoddau a rhaglenni gwaith</p>			

Cw38 Ydych chi'n gallu awgrymu ffyrdd o sicrhau bod y panel yn darparu'r safbwynt diduedd hyd braich, pan fo angen hynny, mewn perthynas â darparu gwasanaethau cyhoeddus yr amgylchedd hanesyddol ar lefel genedlaethol yng Nghymru?			
Ydwyf	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac ydwyf	<input type="checkbox"/>
Wnewch chi ymhelaethu?			
<p>Eglurder ynghylch achosion posibl o wrthdaro buddiannau sy'n effeithio ar y gallu i fod yn ddiuedd</p> <p>Aelodau'r panel heb eu cyfyngu gan gylchoedd gwaith sefydliadol neu gyfyngiadau gwleidyddol</p>			

Cw39 Beth yn eich tyb chi fyddai'r model gweithredu mwyaf effeithiol ar gyfer darparu gwasanaeth integredig cenedlaethol ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol (cynnig C49)?			
Wnewch chi ymhelaethu?			
Dim sylw			

Cw40 Ydych chi'n cytuno y byddai cynnig C50 a C51 yn effeithiol o ran diogelu prif swyddogaethau presennol CBHC?			
Ydwyf		Nac ydwyf	
Os nad ydych, pa fesurau eraill y gellid eu hystyried yn eich tyb chi? Pa broblemau allai godi?			
Dim sylw			

Dyfodol ein gorffennol: Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Cw41 Ydych chi'n cytuno â chynnig C52?			
Ydwyf	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac ydwyf	<input type="checkbox"/>
Sylw			
Mae'n darparu mynediad sylweddol well i bawb, yn haws i'w gadw'n gyfredol, yn codi ymwybyddiaeth o bob ased hanesyddol sydd wedi ei chofrestru a'i dynodi ar lefel genedlaethol ac yn lleihau'r posibilrwydd o anghofio am gofnodion. Byddai'n rhagorol cael cyfleuster i lawrlwytho adroddiadau digidol, mapiau, setiau data GIS a mapiau.			

Cw42 Ydych chi'n cytuno â chynnig C53?			
Ydwyf	<input type="checkbox"/>	Nac ydwyf	<input type="checkbox"/>
Sylw			
Dim sylw			

Darparu gwasanaethau amgylchedd hanesyddol ar lefel ranbarthol a lleol

C54 Dylai Gweinidogion Cymru weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i hyrwyddo proses o sefydlu cytundebau ffurfiol rhwng grwpiau o awdurdodau lleol, gan sicrhau bod mwy o gydweithio i ddarparu gwasanaethau cadwraeth ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol.

C55 Dylid ystyried a oes mecanweithiau priodol ar gyfer rhoi cofnodion yr amgylchedd hanesyddol ar sail fwy ffurfiol er mwyn sicrhau eu bod yn parhau.

Cw43 Ydych chi'n cytuno bod angen sefydlu cytundebau mwy ffurfiol rhwng grwpiau o wasanaethau cadwraeth awdurdodau lleol?			
Ydwyf	<input type="checkbox"/>	Nac ydwyf	<input type="checkbox"/>
Sylw			
Dim sylw			

Cw44 Ydych chi'n cytuno y dylai'r cytundebau hynny gynnwys y meysydd a awgrymir yn 4.43 uchod?			
Ydwyf	<input type="checkbox"/>	Nac ydwyf	<input type="checkbox"/>
Pa feysydd eraill y gellid eu cynnwys yn y cytundebau hynny?			
Dim sylw			

Dyfodol ein gorffennol: Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Cw45 Ydych chi'n cytuno â chynnig 55?			
Ydwyf	<input type="checkbox"/>	Nac ydwyf	<input type="checkbox"/>
Os felly, sut byddai'n bosibl cyflawni hynny?			
Dim sylw			

Cefnogi'r trydydd sector i ddarparu gwasanaethau amgylchedd hanesyddol ym mhob rhan o Gymru

C56 Dylai Gweinidogion Cymru chwilio am ffyrdd o roi anogaeth a chymorth i'r ymdrechion i greu sefydliad ambarél, a fydd yn cael ei redeg ar sail aelodaeth, ac a fydd yn cefnogi'r rhwydwaith o sefydliadau treftadaeth gwirfoddol yng Nghymru nad ydynt o dan adain y llywodraeth.

C57 Dylai Gweinidogion Cymru ymchwilio i'r posibilrwydd o sefydlu ymddiriedolaeth genedlaethol ar gyfer diogelu treftadaeth Cymru, neu rwydwaith o ymddiriedolaethau rhanbarthol ar gyfer diogelu'r dreftadaeth honno.

Cw46 Ydych chi'n cytuno â chynnig C56?			
Ydwyf	<input type="checkbox"/>	Nac ydwyf	<input type="checkbox"/>
Os ydych yn cytuno, pa fath o rwydwaith fyddai orau a beth fyddai'r ffordd orau o'i gyllido?			
Dim sylw			

Cw47 Ydych chi'n cytuno â chynnig C57?			
Ydwyf	<input type="checkbox"/>	Nac ydwyf	<input type="checkbox"/>
Pa fath o ymddiriedolaeth neu ymddiriedolaethau fyddai orau, a beth fyddai'r ffordd orau o'u cyllido?			
Dim sylw			

Cw48 Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â hwy yn benodol, nodwch nhw.			
Asesiad o Forweddau Hanesyddol a'i rôl yn y rhaglen Cynllunio Gofodol Morol			

Dyfodol ein gorffennol: Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Mae'n debygol y bydd ymatebion i ymgynghoriadau yn cael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os fyddai'n well gennych i'r ymateb fod yn gyfrinachol, ticiwch yma.